

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	16 Chwefror 2021
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Gareth Wyn Griffith
Swyddog cyswllt:	Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd
Rhif Cyswllt:	32371
Pwnc:	ADOLYGIAD PARCIO

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Mabwysiadu'r addasiadau i'r Strategaeth Barcio drwy newid trefniadau rheoli parcio a gweithredu strwythur ffioedd parcio yng Ngwynedd i fod yn weithredol o'r 1af Ebrill 2021.

Awdurdodi'r Pennaeth Amgylchedd i gymryd y camau statudol angenrheidiol i roi'r gyfundrefn ffioedd diwygiedig mewn lle o'r 1 o Ebrill 2021.

RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

I ddiweddarau'r strategaeth barcio a chynnig datrysiadau priodol er mwyn cyrraedd gofynion pobl yr oes fodern yn ogystal â chyfarch lefel incwm digonol sydd yn ddisgwyliedig o'r Adran.

CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae polisiâu a gweithdrefnau parcio Cyngor Gwynedd wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2015. Credwn ei bod hi'n amserol i adolygu'r strategaeth parcio weithredol presennol ac asesu ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion y Cymunedau erbyn heddiw.

- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn adolygu priodoldeb y strwythur ffioedd presennol. Nid yw'r ffioedd talu ac arddangos wedi newid ers 2015 hyd yn oed i adlewyrchu cyfraddau chwyddiant, oni bai fod cymunedau wedi penderfynu cynyddu'r ffioedd o 10% er mwyn mabwysiadu cynllun i gadw'r incwm ychwanegol a'i fuddsoddi'n ôl yn y gymuned. Byddai'r ffioedd wedi codi oddeutu 12.5% ar gyfartaledd pe byddent wedi eu haddasu yn rheolaidd i adlewyrchu effaith chwyddiant dros y cyfnod o bum mlynedd.
- 1.3 Yn deillio o benderfyniad y Pwyllgor Craffu Cymunedau nol ym mis Gorffennaf 2019, sefydlwyd Grŵp Tasg Parcio i ymgymryd â'r adolygiad. Mae'r Grŵp Tasg yn cynnwys pedwar aelod lleol megis, Cynghorydd Angela Russell; Cynghorydd Annwen Hughes; Cynghorydd Kevin Morris Jones a Chyngorydd Gethin Glyn Williams sydd wedi cydweithio'n adeiladol gyda Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd a swyddogion eraill o'r Adran.
- 1.4 Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Cymunedau, bu i'r Grŵp Tasg Parcio fwrw ymlaen a chynnal adolygiad mewn modd ystyriol a gofalus gan ymdrechu i gyrraedd cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu lefel incwm digonol a chadw'r ffioedd Parcio i drigolion Gwynedd yn fforddiadwy.
- 1.5 Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda'r Grŵp Tasg Parcio, bu i'r gweithgor gydnabod ei bod yn anorfod i gynyddu'r ffioedd parcio presennol er mwyn cynhyrchu refeniw sydd yn ddigonol i gyfarch targed incwm y Cyngor yn ogystal â'r cynnydd chwyddiant yn flynyddol.

Roedd y Grŵp hefyd yn cydnabod bod llawer iawn wedi newid ers i'r Cyngor gynnal yr adolygiad diwethaf yn 2015. Mae cyfle nawr i adolygu'r trefniadau presennol ac argymhell gwelliannau sydd yn cydweddu gyda sefyllfa'r economi leol ac uchafu'r defnydd o feddalwedd sydd bellach ar gael.

- 1.6 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10fed o Ragfyr 2020 yn rhoddi diweddariad ar gynnydd y Grŵp yn ogystal â chyflwyno opsiynau ar gyfer eu hystyriaeth. Trafodwyd yr opsiynau a'r effaith posib ar drigolion a chymunedau'r Sir. Penderfynodd y Pwyllgor;

PENDERFYNWYD: DERBYN Y DIWEDDARIAD A CHEFNOGI ARGYMHELLIAD Y GRŴP TASG Y DYLLID CYNYYDDU FFI OEDD TALU AC ARDDANGOS 10%.

2. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 2.1 Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno argymhellion ar sut i wella rheolaeth parcio ar gyfer y dyfodol. Cyflwynir cynigion neu opsiynau ar gyfer mwyafrif o'r pynciau a drafodwyd, gan gynnwys eglurhad neu gyfiawnhad i gefnogi'r opsiwn dewisedig. Amlinelli'r effeithiau ariannol ac amgylcheddol posib, a'r effaith bosib ar yr economi leol. Wrth baratoi'r adroddiad rhoddwyd hefyd ystyriaeth i faterion cydraddoldeb.

- 2.2 Rhaid cydnabod bod parcio yn medru bod yn fater cynhennus a bod cynigion ar gyfer rheoli parcio yn medru ysgogi teimpladau cryf o bersbectif personol a lleol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y darlun sirol ac mae adolygu'r trefniadau yn anorfod o ran cynaliadwyedd ariannol yn y cyfnod heriol hwn o ran cyllidebau'r awdurdod er sicrhau bod ein trefniadau rheoli ymarferol yn effeithiol ac yn effeithlon.
- 2.3 Ni fydd rhai o'r cynigion yn boblogaidd a phawb, ond credaf fod yr hyn sydd yn cael ei gyflwyno yn gosod cyfeiriad a chyd-destun ar gyfer rheoli parcio yn gytbwys ac effeithiol yng Ngwynedd yn y dyfodol.
- 2.4 Mae'r argymhellion hefyd yn cael eu cynnig er sicrhau bod incwm digonol i gyfarch y bwch ariannol yng nghyllideb y Cyngor, sydd erbyn 2022/23 yn £400,000. Mae effaith chwyddiant a Threth ar Werth yn unig dros y cyfnod ers 2015 tua 12.5%.
- 2.5 Mae'r prif benawdau a ystyriwyd fel a ganlyn:
- Prif newidiadau ers yr adolygiad blaenorol yn 2015
 - Cynnig newid strwythur Ffioedd Parcio
 - Cynnig / opsiynau ar gyfer parcio yn ystod cyfnod y Nadolig
 - Cynnig / opsiynau ar gyfer deiliaid y Bathodyn Glas
 - Cynnig ar gyfer parcio i Breswylwyr
 - Cynnig / opsiynau i gryfhau'r Tîm Gorfodaeth Parcio
 - Cyfleon / Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

3. PRIF NEWIDIADAU ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF

- 3.1 Mae dros 5 mlynedd ers i'r strategaeth parcio weithredol presennol gael ei fabwysiadu. Credaf fod pob un ohonom yn llawn ymwybodol o'r newidiadau sydd wedi bod yn ystod y cyfnod hwn sy'n cael cryn ardrawiad ar ein cymunedau yng nghyd-destun Parcio. Adnabuwyd mai'r prif newidiadau ers yr adolygiad diwethaf yw mwy o gerbydau trydan, lleihad mewn defnydd o arian parod, digwyddiadau a gynhelir yn y Sir, cynnydd o ddefnydd tai a thai haf ar gyfer llety gwyliau a chynnydd mewn defnydd o gerbydau gwyliau. Cyfeiriwch at **Atodiad A** (Adroddiad Parcio – Pwyllgor Craffu Cymunedau) am wybodaeth manwl a baratowyd gan Bennaeth a Swyddogion yr Adran Amgylchedd am y pynciau penodol hyn.

- 3.2 Gyda nifer fawr o strydoedd hanesyddol yng Ngwynedd sydd heb eu dylunio ar gyfer cerbydau swmpus a thrwm, mae disgwyliad arnom nawr i geisio cynnig datrysiadau priodol sydd yn cyrraedd anghenion yr oes fodern. Yn sicr, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn anarferol ac wedi uchafu problemau yn nhermau Parcio ledled y Sir. Mae hyn wedi'i amlygu yn ystod ein cyfarfodydd gyda'r Grŵp Tasg parcio.

Cerbydau Trydan

- 3.3 Bu i'r Cyngor ymrwymo i gymryd camau priodol tuag at wneud y Sir yng ngharbon niwtral erbyn 2030 ar ôl cyhoeddi Argyfwng Hinsawdd yn 2019. Wrth gwrs, un o'r mesurau yw buddsoddi a gosod manau gwefru ar ein meysydd Parcio. Bwriedir i osod manau gwefru mewn 23 o leoliadau yn ystod 2020/21.
- 3.4 Mae targed incwm ychwanegol o £50,000 wedi ei osod ar yr Adran Amgylchedd i'w gwrdd ag ef drwy gasglu incwm o fannau gwefru wedi eu gosod ar ein meysydd parcio. Y cam nesaf yw gosod strwythur ffioedd ar gyfer y manau gwefru sy'n galluogi trosiant a defnydd effeithiol. Mae'r Adran Amgylchedd yn y broses o edrych i Siroedd eraill a chwmnïau preifat i amlinellu opsiynau.

Lleihad mewn defnydd Arian Parod

- 3.5 Gyda thechnoleg gwybodaeth yn datblygu'n gyflym a chynnig dulliau talu amgen i bobl y byd modern, y weledigaeth yw cyflwyno mwy o beiriannau gyda dull i dalu a cherdyn debyd neu gredyd ym meysydd parcio'r Cyngor. Gall y dull hwn fod yn ychwanegol i'r dull traddodiadol o dalu gydag arian parod.
- 3.6 Ein bwriad yn y tymor hir yw monitro defnydd y dull newydd a chynnal adolygiad o gytundeb presennol y Cyngor ar gyfer casglu a bancio arian gan adnabod cyfleodd i gwtogi amllder y casgliadau, arbed arian a chaiff effaith positif ar yr amgylchedd yn ei dro.
- 3.7 Yn ystod Haf 2020, cafodd cynllun ychwanegol ei gyflwyno sydd yn galluogi i ddefnyddwyr dalu am barcio drwy ddefnyddio ffon symudol. Mae'r dull amgen wedi profi'n boblogaidd hyd yn hyn ac rydym wedi derbyn adborth positif iawn am hwylusrwydd y gwasanaeth. Byddwn yn parhau i fonitro defnydd o'r dull ychwanegol.

Digwyddiadau

- 3.8 Mae cynnal digwyddiadau a chystadlaethau yn yr awyr agored yn hynod o boblogaidd erbyn hyn ac mae'n braf gweld fod pobl yn tyrru i Wynedd er mwyn cymryd rhan a chefnogi. Er hyn, bu i'r Grŵp Tasg beri pryder fod digwyddiadau o'r math hwn yn creu aflonyddwch mawr mewn rhai ardaloedd a pharcio yn benodol yn fater problemus.

- 3.9 Mae'r Grŵp Tasg yn cydnabod bod elfennau economaidd positif i gynnal digwyddiadau. Mae'r Grŵp Tasg yn ogystal wedi dod i'r casgliad y dylid trefnwyr digwyddiadau gael neges glir mai eu cyfrifoldeb nhw ydi sicrhau bod maint y digwyddiad yn cyd-fynd gyda'r capasiti parcio sydd ar gael yn y canolfan maent yn cynnal y digwyddiad. Y cam nesaf yw cyfathrebu'n hollol glir gyda threfnwyr digwyddiadau a phwysleisio nad yw'n dderbyniol defnyddio manau preswyl fel capasiti ar gyfer y sawl sy'n cymryd rhan ac yn cefnogi eu digwyddiad.

Ail gartrefi a Llety Gwyliau

- 3.10 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae newid wedi bod i dueddiad pobl yn nhermau teithio. Mae cynnydd cyffredinol yn y niferoedd o bobl sydd yn penderfynu aros yn y wlad yma ar gyfer eu gwyliau yn hytrach na mynd dramor oherwydd ansicrwydd yn gysylltiedig â 'Brexit' a'r gost yn gysylltiedig â theithio dramor.
- 3.11 Yn sicr daw gynnydd o'r fath ac effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol (gan gynnwys materion parcio). Mae'r Grŵp Tasg ar ddeall bod rhai strydoedd preswyl yn y Sir sydd yn cynnwys llety gwyliau yn dioddef ardrawiad sylweddol ar y capasiti parcio i drigolion lleol.
- 3.12 Mae'r Grŵp Tasg yn ymwybodol nad oes modd rheoli parcio ar strydoedd preswyl lle nad oes cyfyngiadau, ac ni ellir gwahaniaethu rhwng y sawl sy'n aros mewn llety gwyliau ar y stryd a rhywun sy'n cartrefu yno. I symud ymlaen, mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar ddarn o waith sydd yn ymchwilio sut gellir cael gwell rheolaeth ar y cam ddefnydd o unedau preswyl ar gyfer defnyddiau gwyliau - prif allbwn y gwaith fydd ceisio canfod pa fecanwaith a ellir ei ddefnyddio er mwyn ceisio rheoli'r defnydd o unedau preswyl ar gyfer defnydd gwyliau.
- 3.13 Er mwyn ceisio cyfiawnhau a chryfhau unrhyw argymhellion a fydd yn deillio o'r gwaith ymchwil fe fydd gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ardrawiad llety gwyliau ar gymunedau, bydd y gwaith ymchwil hwn yn cael ei gynnal ar ffurf holiadur trigolion, gydag parcio yn fater penodol a fydd yn derbyn sylw.

Cerbydau gwyliau (cartrefi modur)

- 3.14 Mae cynnydd sylweddol wedi bod dros y 5 mlynedd diwethaf yn y sawl sydd yn defnyddio cerbydau gwyliau neu gartrefi modur i deithio o gwmpas, un ai cerbydau eu hunain neu yn eu hurio. Yr ydym yn cydnabod bod nifer fawr o berchnogion cerbydau o'r fath yn gyfrifol ac yn cynllunio eu llwybr a manau aros pwrpasol cyn cychwyn ar eu taith, mae'n amlwg fod nifer yn dewis aros ar strydoedd, ffyrdd neu feysydd Parcio dros nos.

- 3.15 Mae'r Adran Amgylchedd a'r Adran Economi eisoes wedi gosod arwyddion 'dim aros dros nos' mewn nifer o leoliadau lle mae Cwynion wedi eu derbyn, ac ar y cyfan mae hyn wedi bod yn lwyddiant. Mae'r Grŵp Tasg yn fodlon gyda'r trefniadau yma cyn belled a bod yr adrannau yn parhau i fonitro.
- 3.16 Yn ogystal, mae'r Grŵp Tasg yn awyddus i'r Adran ail sefydlu is-ddeddfau oedd yn bodoli ar aros fannau gyfochrog i'r ffordd i'w galluogi i orfodi ar y sawl sy'n aros ynddynt mewn cerbydau gwyliau dros nos.
- 3.17 Bydd swyddogion o'r Adran Amgylchedd yn bwrw ymlaen gyda'r pwyntiau gweithredu uchod gan drafod a diweddarau'r Grŵp Tasg Parcio ar y cynnydd.

4. CYNNIG NEWID STRWYTHUR FFOEDD PARCIO

- 4.1 Mae'r strwythur ffioedd parcio presennol a fabwysiadwyd nôl yn Chwefror 2015 yn cynnwys 5 band penodol ar gyfer dynodi math o feysydd parcio yn ein Sir. Yr oedd y bandiau a sefydlwyd pryd hynny yn seiliedig ar y meini prawf fel a ganlyn:

Meini Prawf Presennol:

Bandio	Meini Prawf
Band 1	Dros 350 o siopau manwerthu.
Band 2	Rhwng 100 a 350 o siopau manwerthu + prif drefi marchnad.
Band 3	Dros 50 o siopau manwerthu a busnesau eraill a trefi a phentrefi sy'n cael eu heffeithio gan y tymor gwyliau, canolfannau arfordirol, hanesyddol a hamdden / adloniant.
Band 4	Dros 20 o siopau manwerthu a busnesau eraill NEU trefi a phentrefi sy'n cael eu heffeithio gan y tymor gwyliau, canolfannau arfordirol, hanesyddol a hamdden / adloniant.
Band 5	Llai nag 20 o siopau manwerthu a busnesau eraill a dim effaith tymhorol sylweddol.

Gweler copi o'r strwythur ffioedd presennol yn **Atodiad B**.

- 4.2 Roedd y meini prawf uchod yn synhwyrol ar y pryd ond yn ystod trafodaethau'r Grŵp tasg, daeth i'r amlwg fod sgôp i ail fodelu a symleiddio'r strwythur ffioedd drwy leihau'r nifer o fandiau, cysoni'r oriau gorfodi a thalgrynnu ffioedd 'od' i'r bunt agosaf. Amlygwyd hefyd nad oedd sail bellach i wahaniaethu Dinas Bangor oddi wrth weddill o'r canolfannau (Trefi) yn y Sir. Mewn gwirionedd yr unig wahaniaeth sydd rhwng Band 1 a Band 2 yw'r cyfnodau gorfodi, ac felly yr oedd y Grŵp Tasg yn teimlo y dylai cyfnod gorfodi Band 1 a band 2 fod yn gyson a hynny o 9:00 y bore tan 5:00 yr hwyr ar gyfer meysydd parcio arhosiad byr a gorfodi meysydd parcio arhosiad hir 24 awr y dydd.

- 4.3 Mae'r meini prawf bandio arfaethedig ar gyfer canolfannau Gwynedd fel a ganlyn:

Meini Prawf Arfaethedig:

Bandio	Meini Prawf
Band 1	Canolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Manwerthu Trefol (Darparu'r ystod orau o wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus)
Band 2	Canolfannau Manwerthu a Gwasanaethu Lleol (darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a'r dalgylchoedd gwledig cyfagos, ynghyd â rhywfaint o gyfleoedd cyflogaeth a manwerthu. Mae ganddynt raddfa dda o hygyrchedd trwy gludiant cyhoeddus i'r Canolfannau rheng uwch)
Band 3	Meysydd Parcio Tymhorol

Gweler copi o'r strwythur ffioedd arfaethedig llawn yn **Atodiad C** gan gynnwys rhestr o'r meysydd parcio a ceir eu heffeithio.

- 4.4 Fel y gwelwch, mae'r nifer o fandiau wedi eu cwtogi o 5 i 3. Mae bwriad i addasu oriau gorfodi mewn meysydd parcio arhosiad byr i 9yb tan 5yp a gorfodi meysydd parcio arhosiad hir 24 awr y dydd er mwyn ymarfer tegwch a chysondeb drwy'r Sir. Mae cymal 3.5 yn cynnig dadansoddiad pellach o'r bandiau arfaethedig:

Band 1 Arfaethedig

- 4.5 Yn nhermau ffioedd, mae bwriad i gadw'r ffioedd oddi fewn i'r **Band 1** arfaethedig yr un fath a'r strwythur presennol, felly ni fydd cynnydd 10% yn weithredol:

Canolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Manwerthu Trefol (Darparu'r ystod orau o wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus)	Band 1	Arhosiad Byr			
				Dim Amrywiaethau Tymhorol	
	1 Awr		1.00	Oriau Gorfodi: 09:00 - 17:00	
	2 Awr		2.00		
	3 Awr		3.00		
		Band 1	Arhosiad Hir		
					Dim Amrywiaethau Tymhorol
		Hyd at 4 Awr		2.00	Oriau Gorfodi: 24 awr
		Hyd at 8 Awr		3.00	
		Hyd at 12 Awr		4.00	
	Hyd at 24 Awr		5.00		

Band 2 Arfaethedig

- 4.6 Yn unol â chais y Grŵp Tasg, mae ffioedd **Band 2** wedi eu haddasu o £4.50 am 8 awr a £7.50 am 24 awr i £5.00 am 12 awr a £10.00 am 24 awr.

- 4.7 Yr oedd y Grŵp Tasg o'r farn bod y strwythur ffioedd ar gyfer meysydd parcio arhosiad byr yn iawn ond yn teimlo bod gormod o opsiynau talu ar gyfer arhosiad hir. Mae strwythur ffioedd newydd wedi ei awgrymu ar gyfer meysydd parcio arhosiad hir sy'n fwy syml. Yr ardaloedd oddi fewn i'r bandiau 3 a 4 presennol fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf o'r newid ffioedd, a dylid nodi mai'r meysydd Parcio yma yw'r rhai sydd yn gwasanaethu ymwelwyr ac yn newid yn dymhorol.
- 4.8 Er mwyn amlygu'r newid i'r darllenydd, dyma gymhariaeth o'r band presennol mewn gwyn a'r band newydd arfaethedig wedi lliwio'n las:

Ffioedd Presennol - Arhosiad Byr		Ffioedd Newydd - Arhosiad Byr	
Haf		Haf	
Hyd at 1 awr	£1.00	Hyd at 1 awr	£1.00
Hyd at 2 awr	£2.00	Hyd at 2 awr	£2.00
Hyd at 3 awr	£3.00	Hyd at 3 awr	£3.00
Gaeaf		Gaeaf	
Hyd at 1 awr	£1.00	Hyd at 1 awr	£1.00
Hyd at 2 awr	£2.00	Hyd at 2 awr	£2.00
Hyd at 3 awr	£3.00	Hyd at 3 awr	£3.00
Ffioedd Presennol - Arhosiad Hir		Ffioedd Newydd - Arhosiad Hir	
Haf		Haf	
Hyd ar 4 awr	£3.00	Hyd at 12 awr	£5.00
Hyd at 8 awr	£4.50	Hyd at 24 awr	£10.00
Hyd at 12 awr	£6.00		
Hyd at 24 awr	£7.50		
Gaeaf		Gaeaf	
Hyd ar 4 awr	£2.00	Hyd at 12 awr	£3.00
Hyd at 8 awr	£3.00	Hyd at 24 awr	£6.00
Hyd at 12 awr	£4.00		
Hyd at 24 awr	£5.00		

- 4.9` Fel y soniwyd uchod, mae bwriad i gadw'r ffioedd yr un fath ar gyfer meysydd Parcio Arhosiad byr oddi fewn i Ganolfannau Manwerthu a Gwasanaethu Lleol (Band 2) felly ni fydd y cynnydd 10% yn weithredol.
- 4.10 Gyda pherthnasedd i'r meysydd Parcio Arhosiad hir oddi fewn i Fand 2, rydym yn rhagweld bod y newidiadau uchod am gynhyrchu mwy o incwm i'r Cyngor oherwydd nad oes opsiwn i'r defnyddwyr dalu am gyfnod byrrach nag 12 awr yn y meysydd parcio. Er hyn, wrth gyfrifo'r gost fesul awr i ddefnyddwyr y meysydd parcio arhosiad hir, gwelwn fod disgwyliad iddynt dalu cyfradd rhatnach am gyfnod 12 awr ar y cyfan.

- 4.11 Er mwyn rhoi effaith y newid arfaethedig mewn cyd-destun i'r darlennydd, dyma grynodedb o'r effaith fesul awr:

Effaith Fesul Awr - Haf	
Hyd at 12 awr	- 8c
Hyd at 24 awr	+ 11c

Effaith Fesul Awr - Gaeaf	
Hyd at 12 awr	- 8c
Hyd at 24 awr	+ 4c

- 4.12 Fel i mi grybwyll uchod, y meysydd Parcio hyn yw'r rhai sydd yn gwasanaethu ymwelwyr ac yn newid yn dymhorol.

Band 3 Arfaethedig

- 4.13 Yn ystod yr adolygiad, daeth i'r amlwg nad ydi'r incwm a gynhyrchir mewn rhai o'r meysydd parcio tymhorol oddi fewn i'r band 4 presennol yn ddigonol i dalu am y costau sydd yn gysylltiedig â chasglu a bancio'r arian, offer a chytundeb cefnogaeth i'r peiriannau, trydan a chynnal a chadw'r meysydd parcio. O ganlyniad, credwn ei bod yn amserol a chyfiawnhad i gynyddu'r ffioedd.
- 4.14 Er mwyn amlygu'r newid i'r darlennydd, dyma gymhariaeth o'r band presennol mewn gwyn a'r band newydd arfaethedig (band 3) wedi'i liwio'n las:

Ffioedd Presennol - Arhosiad Hir	
Hyd at 4 awr	£1.00
Hyd at 8 awr	£2.00
Hyd at 12 awr	£3.00
Hyd at 24 awr	£4.00

Ffioedd Newydd - Arhosiad Hir	
Hyd at 6 awr	£3.00
Hyd at 12 awr	£4.00
Hyd at 24 awr	£5.00

- 4.15 Er mwyn rhoi effaith y newid arfaethedig mewn cyd-destun i'r darlennydd, dyma grynodedb o'r effaith fesul awr:

Effaith Fesul Awr	
Hyd at 6 awr	+ 25c
Hyd at 12 awr	+ 8c
Hyd at 24 awr	+ 4c

- 4.16 Rydym yn cydnabod fod naid reit sylweddol yn y ffi am gyfnod o 6 awr, er hyn, mae'n bwysig cyraedd cydbwysedd rhwng cyflwyno ffioedd fforddiadwy a chynhyrchu incwm digonol i dalu am gynnal a chadw'r meysydd Parcio o leiaf. Mae'r ffioedd oddi fewn i Fand 4 ar hyn o bryd yn profi i fod yn anghynladwy o rhad, felly credwn fod cyfiawnhad cryf dros y newid arfaethedig.

4.17 Rhaid cadw mewn cof fod nifer fawr o drigolion Gwynedd yn prynu Tocyn Parcio Blynnyddol a gynigir gan y Cyngor. Mae'r tocyn yn galluogi deilwyr i barcio mewn unrhyw faes parcio arhosiad hir ledled y Sir heb gyfyngiad amser. Yn unol â'r adolygiad hwn, mae argymhelliad i gynyddu cost am y tocyn hwn o £125 i £140 y flwyddyn (er mwyn cyfarch chwyddiant). Byddai deilwyr y tocyn sydd yn defnyddio maes parcio yn ddyddiol yn talu £11.67 y mis, sydd yn gyfwerth a 39c y dydd. Roedd y Grŵp Tasg o'r farn fod y tocyn yn parhau i gynnig gwerth am arian.

*Gwerthfawrogwn fod £140 yn ddrud i dalu gyda'i gilydd felly hoffwn amlygu fod opsiwn i brynu tocyn am gyfnod o 6 mis am £70.

4.18 Mae'r ffioedd arfaethedig uchod o'i gymharu â ffioedd cyfatebol Awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn parhau i fod yn gymharol a rhesymol.

4.19 Yn 2015 ffurfiwyd model ar gyfer amcanu incwm tebygol ar sail ffioedd amrywiol. Roedd fformiwla oddi fewn i'r model yn ystyried nifer o ffactorau all ddylanwadu ar lefelau incwm megis tueddiadau defnyddwyr, newid tymhorol i ffioedd a throsiant yn y meysydd parcio prysuraf cyn cyfrifo cyfanswm incwm drwy ddadansoddiad hydeimledd. Nid oedd hyn yn dasg hawdd gan fod cymaint o ffactorau yn dylanwadu ar lefelau incwm gyda llawer ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac na ellid rhagamcanu maint eu dylanwad. Er hyn, bu i'r cyfanswm incwm a ddeilliwyd allan o'r adolygiad syrthio oddi fewn i'r categori 'incwm tebygol' yn unol â'r dadansoddiad.

4.20 O ganlyniad i lwyddiant y model, penderfynwyd ei ddefnyddio yn ystod yr adolygiad hwn yn ogystal ar gyfer cyfrifo incwm all ddeillio o'r strwythur ffioedd arfaethedig. Wrth gwrs, mae swyddogion o'r Adran Amgylchedd wedi gwirio'r data er mwyn sicrhau ei gywirdeb a dilysrwydd.

4.21 Yn nhermau mabwysiadu'r strwythur ffioedd arfaethedig, rydym yn weddol hyderus y gall y newidiadau gynhyrchu incwm sydd yn ddigonol i gyfarch chwyddiant a chanfod arbedion ychwanegol.

5. CYNNIG AR GYFER PARCIO YN YSTOD CYFNOD Y NADOLIG

5.1 Mae'r Grŵp Tasg yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddorion sydd yn gysylltiedig â chaniatáu parcio am ddim dros ŵyl y Nadolig ond mae'n ymddangos bod lle i wella'r trefniadau. Mae busnesau lleol yn cystadlu'n erbyn y we fwy nag erioed yn dilyn digwyddiadau eleni.

5.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig parcio am ddim ar holl feysydd parcio talu ac arddangos dros gyfnod y Nadolig am oddeutu 12 mlynedd. Ar hyn o bryd mae'r strategaeth parcio yn amlinellu bod parcio am ddim yn cychwyn dau benwythnos cyn yr ŵyl ac yn parhau am oddeutu pythefnos. Nid oes cyfyngiad amser e.e. parcio am ddim yn cychwyn ar ôl 11yb wedi bod yn rhan o'r cynllun yn y gorffennol, sydd yn wahanol i Gynghorau cyfagos.

- 5.3 Mae wedi dod i'r amlwg fod gweithwyr yn manteisio ar y cynnig ac yn defnyddio'r baeau fwyaf hwylus er mwyn parcio'n agosach i'r gweithle. Golygai hyn wrth gwrs nad yw'r baeau gorau ar gael i siopwyr, sydd yn tanseilio'r pwrpas sydd du ôl i'r cynllun.
- 5.4 Fel y gwyddoch, mae trefniadau presennol yn golygu colled incwm o oddeutu £45,000 yn flynyddol. Er hyn, nid yw'r Cyngor yn awyddus i waredu a'r cynllun oherwydd bod busnesau lleol yn ei weld yn fuddiol felly bu i'r Grŵp Tasg fwrw ymlaen a thrafod opsiynau amgen.
- 5.5 Dyma opsiynau amgen a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynghyd a'r effaith ariannol:

	Opsiynau - Cyfnodau Parcio am Ddim	Amcan colled incwm
A	1 Wythnos cyn / ar ôl yr Ŵyl Nadolig	£22,500
B	28 – 31 Rhagfyr + Wythnos Cyntaf mis Ionawr	£37,283
C	Wythnos Cyntaf mis Ionawr yn unig	£24,426
D	Trefniadau Presennol ond parcio am ddim o 10yb i atal gweithwyr gymryd y baeau gorau	£45,000

- 5.6 Yr oedd y Grŵp Tasg o'r farn bod llawer yn ymweld â'n prif ganolfannau yn ystod y cyfnod sydd yn arwain at y Nadolig, ond bod cyfnod distaw iawn yn ystod mis Ionawr. Yr oedd y Grŵp Tasg yn awyddus i ystyriaeth gael ei roi i gynnig parcio am ddim yn ystod mis Ionawr, ac efallai cwtogi'r cyfnod cyn y Nadolig fel nad oes ardrawiad ariannol. Derbyniwyd adborth calonogol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau oedd yn agored i ystyried opsiynau amgen uchod. Byddwn fel Grŵp tasg yn parhau i drafod a phwyso a mesur addasrwydd y cynlluniau amgen cyn cyrraedd penderfyniad cadarn ar gyfer Nadolig 2021.

6. CYNNIG / OPSIYNAU AR GYFER DEILIAID Y BATHODYN GLAS

- 6.1 Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Grŵp Tasg ynghylch a'r cynllun Bathodyn Glas sydd yn caniatáu i ddeilwyr y bathodyn gydag anableddau i barcio am ddim mewn unrhyw Faes Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Gwynedd.
- 6.2 Roedd aelodau o'r Grŵp Tasg yn gytûn mai gadael y cynllun yr un fath yw'r opsiwn gorau ar hyn o bryd. Mae'r Grŵp Tasg yn cydnabod bod bywydau deilwyr bathodynnau glas ddigon anodd heb orfod ystyried y dasg o fynd i nôl tocyn talu ac arddangos o beiriant. Yn ogystal, ar sail diogelwch ffyrdd mae dadl i gadw'r parcio am ddim i ddeilwyr bathodynnau glas yn ein meysydd parcio gan fod hawliau ganddynt i barcio ar linellau dwbl melyn am gyfnod hyd a 3 awr. Fe fyddai hynny efallai yn tanseilio diogelwch ffyrdd i ddefnyddwyr eraill.
- 6.3 Byddwn felly yn rhoi sgôp i addasu'r cynllun Bathodyn Glas o'r neilltu am y tro ac ail ymweld ag opsiynau yn y dyfodol.

7. CYNNIG AR GYFER PARCIO I BRESWYLLWYR

- 7.1 Mae'r polisi parcio preswylwyr cyfredol yn angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor allu adennill ei gostau wrth fabwysiadu cynllun parcio i breswylwyr mewn unrhyw leoliad. Yn fras mae'r cynllun hwn yn caniatáu i breswylwyr gael tocyn am hyd at ddau gar.
- 7.2 Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Grŵp Tasg ynghylch a'r cynllun Parcio i Breswylwyr a rhoddwyd cefndir ar sut sefydlwyd cynlluniau Parcio i breswylwyr yn dilyn proses ymgynghori. Mae'r Grŵp Tasg yn derbyn bod angen rhan helaeth o drigolion stryd neu ardal fod yn gefnogol i gynllun o'r fath cyn rhoi gwaharddiadau yn eu lle. Mae'r Grŵp Tasg hefyd yn cydnabod bod angen cynlluniau o'r fath fod yn hunan gyllidol, ac felly mae angen i drigolion sy'n manteisio o'r fath gynllun fod yn talu ffi flynyddol.
- 7.3 Cynigir y Grŵp Tasg i gadw'r polisi hwn fel y mae oherwydd bod y cynllun presennol yn parhau i fod yn addas i'w bwrpas. Mae Cynnig i adolygu'r ffioedd blynyddol a chynyddu i gwrdd â chwyddiant yn unig.

8. CYNNIG / OPSIWN AR GYFER CRYFHAU'R TÎM GORFODAETH PARCIO

- 8.1 Bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r pwerau i orfodi parcio yn 2010 gyda thîm o 15 Swyddog Gorfodaeth Sifil bryd hynny. Mae'r tîm bellach wedi cwtogi i 8 Swyddog sydd yn gorfodi ledled y Sir ar ffurf rota.
- 8.2 Yn unol â'r Ddeddf Rheoli Traffig 2004, mae disgwyliad i'r incwm a gasglir o ddirwyon fynd tuag at gyllido'r tîm gorfodaeth a'r gefnogaeth sydd ei angen.
- 8.3 Mae cost bresennol y tîm gorfodaeth yn £196,000 (18/19) ac mae £380,000 (18/19) o incwm dirwyon yn cael ei gasglu'n flynyddol ganom. Mae costau goramser blynyddol yn oddeutu £9,000 a hyn oherwydd argaeledd swyddogion i sicrhau presenoldeb craidd ar adegau.
- 8.4 Mae penodi swyddogion tymhorol i'r swyddi hyn yn anodd oherwydd y buddsoddiad hyfforddiant a mentora sydd ei angen. Mae lefel absenoldeb salwch y tîm yn eithaf uchel, ac mae gofyn i'r swyddogion yma fod yn mynd allan pob tywydd ac wrth gwrs o bryd i'w gilydd meant yn derbyn ymosodiadau geiriol ac ambell dro corfforol oherwydd natur y swydd.
- 8.5 Yn unol â chais y Grŵp Tasg, bu i'r swyddogion fynd ati i amlinellu maint tîm sydd ei angen i sicrhau hygyrchedd a chefnogaeth ddigonol. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r opsiynau, adnabuwyd fod angen penodi swyddog ychwanegol llawn amser.
- 8.6 Cynigir i ddefnyddio £28,000 (blynyddol - cynnwys pensiwn a treth) o'r incwm a ddeilliwyd o ddirwyon i gyflogi swyddog ychwanegol ar sail llawn amser. Yn sicr byddai'r adnodd ychwanegol hwn yn lleihau'r angen i dalu goramser ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag at amcanion strategol y tîm e.e. codi safon gofal cwsmer drwy roi sylw i leoliadau problemus ar frys, cynnydd presenoldeb yn ystod digwyddiadau er mwyn sicrhau diogelwch a thebyg.

9. CYFLEON / YSTYRIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL

Asedau meysydd parcio mewn adrannau eraill:

- 9.1 Mae'n amlwg fod y Cyngor yn berchen ar nifer o feysydd parcio mewn Parciau Gwledig, Canolfannau Hamdden ac ati. Ac yn amlwg mae gweithdrefnau rheoli gwahanol Adrannau yn y Cyngor yn wahanol i'w gilydd o ran sut maent yn ymdrin â'r asedau.
- 9.2 Gan fod y Cyngor yn cael ei weld gan y cyhoedd fel un corff unffurf, ystyrir y byddai'n werth mabwysiadu'r cynigion a amlinellir yn yr adolygiad hwn ar gyfer yr holl asedau parcio sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Ystyrir hefyd y byddai'n llawer fwy ymarferol petai rheolaeth yr holl asedau yn eistedd o dan yr Adran Amgylchedd. Gall hyn sicrhau rheolaeth gyson o'r asedau.
- 9.3 Cynigir bod yr Adran Economi a Chymuned yn trosglwyddo eu hasedau o dan reolaeth yr Adran Amgylchedd a chydweithio er mwyn sicrhau fod ffrwd incwm digonol yn mynd tuag at dargedau arbedion yr Adran Economi a Chymuned.

Meysydd Parcio Preifat

- 9.4 Mae'r Adran Amgylchedd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu ac ymgymryd â gweithrediadau rheoli gan gynnwys gorfodaeth mewn o nifer o feysydd parcio preifat megis Ysbyty Gwynedd ac Y Galeri, Caernarfon.
- 9.5 Mae amrywiadau yn sgôp y gweithgareddau a threfniadau ariannol y cyrff sydd wedi comisiynu Cyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn anorfod ar gyfer diwallu costau gorfodaeth a gweinyddol i ymateb i anghenion y tiffeddianwyr dan sylw mewn cytundebau unigol.
- 9.6 Mae contractio gyda chyrrff preifat / cyhoeddus i reoli parcio ceir yn amlwg yn gyfle i greu incwm, ond dylai'r trefniadau a'r ffioedd gael eu hadolygu'n rheolaidd a'u monitro yn erbyn gwir gostau rheoli'r asedau. Bydd hyn yn sicrhau nad yw darparu gweithgareddau yn costio mwy i'r Awdurdod na'r hyn mae'r ffi rheoli yn ei gynhyrchu. Byddwn yn gweithredu ar unrhyw sefyllfa sy'n creu colled ariannol trwy ail drafod neu derfynu'r cytundeb.
- 9.7 Mae sefydliadau eraill wedi datgan diddordeb i gytundebu gyda'r Cyngor megis Prifysgol Bangor, er hyn, teimlwn ei bod yn allweddol cryfhau'r tîm gorfodaeth parcio drwy gyflogi swyddog ychwanegol er mwyn medru cyflawni telerau'r cytundebau sydd yn bodoli'n barod ac ystyried cytundebu a chyrrff / cwmnïau allanol eraill.

10. ASESIAD EFFAITH

- 10.1 Fel rhan o'r adolygiad, mae ystyriaeth wedi ei roi i effaith y gallai rhai opsiynau i newid y trefniadau parcio ei gael. Tra derbynnir nad yw cynnydd mewn ffioedd parcio yn boblogaidd mae cydnabyddiaeth eu bod yn fodd priodol ac angenrheidiol i reoli traffig ac i gefnogi'r economi leol.

- 10.2 Paratowyd asesiad **[Atodiad D]** ar gyfer ystyried perthnasedd yr opsiynau neu gynigion i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb [nodweddion gwarchoddedig]. Ystyrir mai'r prif fater i'w asesu yw effaith posib ar ddeiliaid bathodynau glas. Fel y soniwyd yng nghymal 6 uchod, rydym yn cynnig rhoi newidiadau i'r cynllun Bathodyn Glas o'r neilltu am y tro ac ail ymweld ag opsiynau yn y dyfodol.
- 10.3 Yn ogystal, roedd y grŵp tasg yn effro i'r ffaith ein bod angen cyfarch anghenion heddiw heb wneud niwed neu rwystr i Genedlaethau'r dyfodol. Mae gan yr adroddiad hwn ffocws penodol ar agweddau sydd ymhlith a pharcio, er hyn, mae linc holl bwysig gydag egwyddorion o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 sydd a phrif nodau i greu Cymru iachach ble mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu drwy ymdrin â phynciau fel cerbydau trydan, lleihad mewn defnydd parod ac ail gartrefi a llety gwyliau.
- 10.4 Ni ystyrir bod y cynnig hwn i ail strwythuro ffioedd parcio yng Ngwynedd yn andwyol nac yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp o drigolion.

11. ARGYMHELLIAD

- 11.1 Mabwysiadu'r addasiadau i'r Strategaeth Barcio drwy newid trefniadau rheoli parcio a gweithredu strwythur ffioedd parcio yng Ngwynedd i fod yn weithredol o'r 1af Ebrill 2021.
- 11.12 Awdurdodi'r Pennaeth Amgylchedd i gymryd y camau statudol angenrheidiol i roi'r gyfundrefn ffioedd diwygiedig mewn lle o'r 1 o Ebrill 2021.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

O fabwysiadu yr argymhelliad bydd angen dilyn y drefn statudol Deddf Rheoleiddio Trafnidiaeth Ffordd 1984 er rhoi'r ffioedd addasedig mewn grym.

Y Pennaeth Cyllid:

Dylid adolygu ffioedd a phrisiau'n rheolaidd, a nodaf yn rhan 1.2 o'r adroddiad nad yw'r ffioedd parcio wedi'u cynyddu dros y 6 mlynedd diwethaf, ar wahân i 'premiwm' wedi'i osod gan rai cynghorau cymuned. Deallaf fod yr Adran Amgylchedd wedi ystyried opsiynau yn rhesymol cyn cynnig newid i rai ffioedd sydd, ar sail ei model adrannol (a'i rhagdybiaethau am niferoedd ceir yn parcio), yn cyrraedd y targed incwm yng nghyllideb y gwasanaeth parcio (rhan 4.21 o'r adroddiad).

Nodaf fod y strwythur ffioedd parcio newydd i'w weld yn cynyddu prisiau mewn rhai meysydd parcio sy'n gwasanaethu ymwelwyr, heb gynyddu ffioedd ym meysydd parcio siopa'r prif drefi. Fe ddylai'r strwythur ffioedd parcio arfaethedig yma fod yn fuddiol i fân-werthwyr lleol, ond bydd angen monitro gwir incwm y gwasanaeth parcio yn ofalus er mwyn sicrhau fod gwaith modelu'r Adran Amgylchedd wedi darogan hynny'n gywir. Nodir yn yr adroddiad fod rhai elfennau angen sylw pellach yn ystod 2021, megis parcio dros y Nadolig, ffioedd manau gwefru, ayb. Fodd bynnag, mae'r symudiad i gynnig mwy o ddulliau talu'n electronig yn sicr i'w groesawu

Atodiadau

Atodiad A Prif Newidiadau [Atodiad A – Adroddiad Pwyllgor Craffu Cymunedau]

Atodiad B Strwythur Ffioedd Presennol

Atodiad C Strwythur Ffioedd arfaethedig llawn